

# [Y Cynulliad i drafod egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\)](#)

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl hon yn Saesneg](#)

17/03/17

Gosodwyd [y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\)](#) gerbron y Cynulliad ar 28 Tachwedd 2016, a chafodd ei gyflwyno yn y [Cyfarfod Llawn](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 29 Tachwedd 2016. Bydd y Cynulliad yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil ar 21 Mawrth 2017.

Mae'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn ymwneud â sefydlu'r fframwaith cyfreithiol, gweinyddol a gweithredol i **ddisodli'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru ym mis Ebrill 2018**. Mae'r Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd yn dreth a godir gan y DU ar gael gwared ar ddeunydd fel gwastraff drwy ei roi mewn safleoedd tirlenwi a ganiateir o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Cyflwynwyd y dreth bresennol ym 1996 fel elfen allweddol i sbarduno **newid mewn ymddygiad** amgylcheddol drwy roi cymhelliant i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan ailgylchu, aildefnyddio ac adennill mwy o wastraff. Ers i'r dreth gael ei chyflwyno, mae wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, a chynnydd mewn cyfraddau ailgylchu.

Y Bil hwn yw'r trydydd mewn cyfres o filiau sy'n ymwneud â datganoli'r pwerau treth yn Neddf Cymru 2014. Rhagflaenwyd y Bil hwn gan [Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\) 2016](#)

a sefydlodd y fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y

dyfodol a'r [Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi](#)

[Datganoledig \(Cymru\)](#), a fydd yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp o fis Ebrill 2018.



Ceir rhagor o wybodaeth am gefndir y Bil, trosolwg o'i rannau, crynodeb o'i oblygiadau ariannol, a geirfa Gymraeg yn y [Crynodeb o'r Bil](#) (PDF, 844KB) a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid [adroddiad](#) (PDF, 1MB) ar ei ystyriaeth o egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yng Nghyfnod Un ar 10 Mawrth 2017.

Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn pennu nifer o argymhellion gyda'r nod o gryfhau'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld cyfraddau arfaethedig y trethi, rhestr o ddeunyddiau cymwys a darpariaethau ar gyfer rhyddhad ar ddyled ddrwg, wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil.

Er bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â rhai o'r darpariaethau hyn, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus nad yw is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r un faint o waith craffu â Bil.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod angen sicrwydd ar fusnesau pan ddaw i ddefnyddio deddfwriaeth treth newydd, ac y byddai cynnwys manylion o'r fath yn y gyfraith ei hun yn helpu i fynd i'r afael â phryderon.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol mewn perthynas â phwysigrwydd [Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi](#). Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cynllun Cymunedol yn cael ei gynnwys ar wyneb y Bil i ddangos ymrwymiad i'r cynllun wrth symud ymlaen, ond mae'n derbyn y gallai rhai o'r manylion gael eu pennu mewn rheoliadau.

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol briodoldeb y darpariaethau yn y Bil o ran pwerau i greu is-ddeddfwriaeth. Hefyd, cyhoeddwyd ei [adroddiad](#) (PDF, 2MB) ar 10 Mawrth 2017.

Yn amodol ar y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), bydd y Bil yn symud ymlaen at drafodion Cyfnod Dau (sef trafodaeth fanwl ar y Bil ac unrhyw welliannau a gynigir gan Bwyllgor). Disgwylir y bydd trafodion Cyfnod Dau wedi dod i ben erbyn 26 Mai 2017.



Erthygl gan [Helen Jones](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  
Llun: o Flickr gan Adam Levine. Dan drwydded Creative Commons.

